Mai 2024

Annwyl Ymgynghorai

**Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Ddatblygiadau Carafanio a Gwersylla yn y Parc Cenedlaethol.**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymgynghori ar yr opsiynau i reoli datblygiadau meysydd carafanau a gwersylla yn y Parc Cenedlaethol. Maent yn ceisio eich barn ar y ffordd orau o symud ymlaen.

Mae'r Papur Cefndir yn nodi nifer o opsiynau ar gyfer rheoli meysydd carafanau a gwersylla newydd. Ar ôl ystyried yr opsiynau'n ofalus, yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio gan yr Awdurdod yw cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla 28 diwrnod (Opsiwn 3). Ochr yn ochr â hyn, mae Swyddogion yr Awdurdod o'r farn y gallai ymgysylltu mwy â gweithredwyr safleoedd datblygu a ganiateir, yn enwedig Sefydliadau Eithriedig, trwy gyflwyno Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio Gwirfoddol, wella safonau ac arferion gwaith effeithiol (Opsiwn 2).

Bydd y cyfnod ymgynghori yn para tan **5 p.m. ddydd Gwener, 20 Medi 2024**.

Llenwch yr holiadur ar-lein gyda'ch barn ar yr opsiynau arfaethedig. Fel arall, gellid gwneud sylwadau ysgrifenedig a'u hanfon at y Tîm Polisi Strategol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Llanion, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY, neu drwy e-bost; devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r dogfennau, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r tîm Polisi Strategol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drwy ffonio 01646 624800, neu anfon e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk. Gellir darparu copïau papur, am gost fechan.

Bydd pob sylw yn cael ei gydnabod a'i gyhoeddi. Bydd yr holl sylwadau yn cael eu hadrodd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Er mwyn cael gwybod am ganlyniad cyfarfod yr Awdurdod, cynghorir cynrychiolwyr i gynnwys eu manylion cyswllt yn yr holiadur ar-lein. Fel arall, gallwch wneud cais i gael eich cynnwys ar restr bostio'r Awdurdod drwy anfon e-bost at y tîm Polisi Strategol yn devplans@pembrokeshirecoast.org.uk.

Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnal digwyddiad ymgysylltu ar-lein ym mis Gorffennaf. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu, cofrestrwch eich diddordeb yma erbyn **5 p.m.** ar **ddydd Gwener, 28 Mehefin 2024** https://www.arfordirpenfro.cymru/cymryd-rhan/ymgynghoriadau-cyhoeddus/ymgynghoriad-ddatblygiadau-carafanio-a-gwersylla/.


Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion, Doc Penfro
Sir Benfro SA72 6DY

Pembrokeshire Coast National Park Authority
Llanion Park, Pembroke Dock
Pembrokeshire SA72 6DY

Ffôn/Tel:
01646 624800

Ffacs/Fax:
01646 689076

pcap@arfordirpenfro.org.uk
pcnp@pembrokeshirecoast.org.uk

www.arfordirpenfro.cymru
www.pembrokeshirecoast.wales



Cymraeg

*Rydym yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh, and will respond to any correspondence in Welsh. Corresponding in Welsh will not lead to delay.*

**Ble i weld y dogfennau**

Mae'r dogfennau ar gael i'w lawrlwytho o wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol; https://www.arfordirpenfro.cymru/cymryd-rhan/ymgynghoriadau-cyhoeddus/ymgynghoriad-ddatblygiadau-carafanio-a-gwersylla/. Gellir hefyd eu gweld ar-lein mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.

**Ble i adael sylwadau**

Mae'r holiadur i'w weld ar wefan y Parc Cenedlaethol; https://www.arfordirpenfro.cymru/cymryd-rhan/ymgynghoriadau-cyhoeddus/ymgynghoriad-ddatblygiadau-carafanio-a-gwersylla/

Os yw sylwebwyr yn cael trafferth cael mynediad at ddogfennaeth yn electronig, gellir gwneud trefniadau eraill. Ffoniwch 01646 624800 neu anfonwch e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk.

Yr eiddoch yn gywir

Sara Morris

Sara Morris
Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro